# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 29 Mawrth 2012** |
| Amser: | **09:35 - 11:20** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_29_03_2012&t=0&l=cy**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Dafydd Elis-Thomas (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Russell George**<br>**Vaughan Gething**<br>**Llyr Huws Gruffydd**<br>**Julie James**<br>**William Powell**<br>**David Rees** |
| Tystion: | **Prof Kevin Anderson, Canolfan Tyndall**<br>**Dr John Broderick, Canolfan Tyndall**<br>**Councillor Stephen Churchman, Fforwm Awdurdodau Lleol Di-Niwclear (NFLA) Cymru**<br>**John Harrison, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**<br>**Dave Jones, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Alun Davidson (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Graham Winter (Ymchwilydd)**<br>**Nia Seaton (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Antoinette Sandbach. Nid oedd dim dirprwyon.

1.2 Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu trefn y busnes gan nad oedd Horizon Nuclear Power yn gallu dod i'r cyfarfod fel y bwriadwyd.

## 2. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 37

2.1 Penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o eitem 3.

## 3. Ymchwiliad i'r achos busnes dros un corff amgylcheddol - Llythyr drafft at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnwys ei lythyr at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, ac y dylai fod ar ffurf llythyr cefndir ac adroddiad fel atodiad. Cytunodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r adroddiad gael ei osod gerbron y Cynulliad.

## 4. Cynnig cydsyniad ynghylch y Gorchymyn, British Waterways Board (Transfer of Functions) Order

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy i geisio cael eglurhad o ran pam fod Llywodaeth y DU wedi penderfynu trosglwyddo swyddogaethau'r gorfforaeth gyhoeddus, Dyfrffyrdd Prydain, i ymddiriedolaeth elusennol a elwir yn Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, yn hytrach na'r opsiynau eraill oedd ar gael.

## 5. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru - Tystiolaeth am ynni Niwclear

5.1 Nid oedd y tyst o Horizon Nuclear Power yn gallu dod i'r cyfarfod fel y bwriadwyd.

5.2 Ymatebodd y Cynghorydd Stephen Churchman i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch polisi ynni a chynllunio yng Nghymru mewn perthynas ag ynni niwclear.

5.3 Cytunodd y Cynghorydd Churchman i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor ynghylch arbedion net a gyflawnwyd drwy fuddsoddi mewn effeithiolrwydd ynni.

5.4 Cytunodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Kevin McCullough fel Cadeirydd Horizon Nuclear Power i gael atebion ysgrifenedig i'w gwestiynau ynghylch ynni niwclear.

## 6. Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru - Tystiolaeth am nwy anghonfensiynol

6.1 Ymatebodd y tystion i gwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch polisi ynni a chynllunio yng Nghymru mewn perthynas â nwy anghonfensiynol.

## 7. Papurau i'w nodi

7.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth.

7.1 Ymchwiliad i bolisi ynni a chynllunio yng Nghymru - Papur gan y Pwyllgor Deisebau ar ei ymweliad rapporteur ar TAN 8

7.2 Nododd y Pwyllgor y papur gan y Pwyllgor Deisebau.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.